# LLWYBRAU TREFTADAETH


RHONDDA CYNON TAF

TAITH 4

# LLANWYNNO, CWM RHONDDA A LLANTRISANT



# TAITH 4 – LLANWYNNO, CWM RHONDDA A LLANTRISANT




## CRYNODEB

Man dechrau: Pontypridd (B4273) CF37 4PE

Ynys-y-bŵl CF37 3DY

① Eglwys Gwynno Sant Llanwynno CF37 3PH

Blaenllechau CF43 4NE

② Glynrhedynog CF43 4LY

③ Tylorstown CF43 3DA

④ Pen-rhys CF43 3PT

⑤ Capel y Cymer (dewisol) Y Porth CF39 9AD

Trebannog CF39 9DU

⑥ Y Gilfach-goch CF39 8TG (dewisol)

⑦ Taith Gerdded Llantrisant (dewisol) Llantrisant CF72 8QQ

# TAITH 4 – DISGRIFIAD O'R DAITH

### O gyfeiriad y de

Dilynwch yr A470 hyd at arwydd yr A4058 i Bontypridd a Chwm Rhondda. Dilynwch y ffordd ymadael i'r gylchfan, ac ewch syth ymlaen. Ar y gylchfan nesaf, cymerwch y tro cyntaf tuag at Bontypridd (A4223).

Gyrrwch i lawr y ffordd a thros bont Afon Taf. Wrth gyrraedd y goleuadau traffig, trowch i'r dde tuag at Ynys-y-bŵl (B4273).


### O gyfeiriad y gogledd

Dilynwch yr A470 hyd at arwydd yr A4233 i Bontypridd a Chwm Rhondda. Dilynwch y ffordd ymadael i'r gylchfan, a chymerwch y pedwerydd tro tuag at Bontypridd (A4233).

Gyrrwch i lawr y ffordd a thros bont Afon Taf. Wrth gyrraedd y goleuadau traffig, trowch i'r dde tuag at Ynys-y-bŵl (B4273).


Dilynwch y B4273 am 5km gan gyrraedd hen bentref glofaol Ynys-y-bŵl . Dilynwch y ffordd drwy'r pentref.

Dilynwch y ffordd hyd at yr arwydd i Lanwynno a Glynrhedynog a throwch i'r chwith. Mae'r ffordd heriol yma'n mynd trwy Goedwig Gwynno Sant ac mae'r cwm yn llawn coed pinwydd a choed ffawydd. Wrth gyrraedd ochr arall y goedwig, mae'r ffordd yn dringo'r bryn tuag at dafarn y Brynffynon Inn ac Eglwys Gwynno Sant ym mhentrefan Llanwynno. Parciwch y car ac ewch am dro o amgylch y man hanesyddol a heddychlon yma. Mae hysbysfwrdd yn y maes parcio sy'n cynnwys ychydig o wybodaeth am yr ardal. Cafodd yr eglwys ei hadeiladu yn y 13eg ganrif a chafodd rhan helaeth ohoni ei hailadeiladu ar ddiwedd y 19eg ganrif, ond mae'n sefyll ar dir a gafodd ei ddewis gan Gwynno Sant tua'r flwyddyn 549OC. Mae croes garreg yn sefyll y tu mewn i'r eglwys sy'n 1,300 mlwydd oed (mae'n bosibl na fydd modd cael mynediad). Mae'r fynwent yn ddiddorol a dyma fan gorffwys Griffith Morgan (1700 – 1737), sydd hefyd yn cael ei alw'n Guto Nyth Brân oherwydd mai dyna oedd enw ei fferm ger y Porth. Roedd Guto yn rhedwr o fri, gan redeg 13 milltir rhwng Bedwas a Chasnewydd mewn cyfnod o 53 munud ac ennill gwobr o 1,000 gini, ond bu farw yn y fan a'r lle pan gafodd ei guro ar ei gefn gan ei chariad, Siân! Mae Rasys Nos Galan yn cael eu cynnal yn strydoedd Aberpennar bob blwyddyn, a hynny er cof am Guto.



Cerflun Guto Nyth Brân, Aberpennar

Dilynwch y ffordd heibio tafarn y Brynffynon Inn ac i'r dde, heibio'r eglwys, ac ar hyd lôn gul. Ar ôl mynd heibio'r trosglwyddydd ar y chwith, mae croeso i chi barcio yn y gilfan er mwyn gwerthfawrogi'r golygfeydd. Sylwch ar domen Tylorstown gerllaw – dyma weddillion y domen lo a gafodd ei chreu gan ddiwydiant glo Cwm Rhondda Fach. Sylwch hefyd ar y rhesi o dai teras – dyma olygfa nodweddiadol o gymoedd De Cymru. Mae'n bosibl gweld Cwm Rhondda Fawr o'r man yma hefyd.



Eglwys Gwynno Sant, Llanwynno

Dilynwch y lôn gul i lawr ochr y mynydd hyd at bentref Blaenllechau. Wrth gyrraedd y gyffordd ar waelod y ffordd, bydd disgwyl i chi droi i'r dde (oherwydd byddai troi i'r chwith yn rhy anodd) a defnyddio'r gylchfan er mwyn troi o amgylch a pharhau i lawr y rhiw tuag at Lynrhedynog.

Mae'r ffordd yn troi i'r dde ac yn croesi pont yr hen reilffordd. Parciwch ar waelod y cwm, heibio datblygiad newydd 'Rhondda Life'* wrth fynedfa Greenwood Park.

*Pan gafodd y llyfryn yma ei baratoi, roedd cynllun 'Rhondda Life' ar fin dechrau. Bydd y cynllun yn cynnig canolfan i ymwelwyr a llety, felly mae croeso i ymwelwyr alw heibio ar ôl i'r cynllun gael ei gwblhau.

Ewch am dro i lawr y lôn tuag at Greenwood Park. Mae cofebion i'w gweld yma sy'n coffáu dau drychineb yn y glofeydd. Digwyddodd y trychinebau ym 1867 ac eto yma 1869 a chafodd cyfanswm o 231 o ddynion a bechgyn eu lladd, gan gael effaith ddifrodus ar y gymuned fach.


Dilynwch y ffordd hyd at gyffordd yr A4233. Os hoffech chi edrych ar yr hysbysfwrdd ar y Strand, trowch i'r chwith ac yna i'r dde er mwyn cyrraedd y meysydd parcio. Fel arall, dilynwch yr A4233 i'r chwith er mwyn teithio i lawr y cwm.

Mae'n bosibl mai'r actor Syr Stanley Baker yw un o feibion enwocaf Glynrhedynog. Mae plac sy'n nodi'i fan geni i'w weld y tu allan i rif 32 Albany Street yn lonydd cefn y dref.

Mae'r rhan yma o Gwm Rhondda yn gartref i un o'i gorau enwocaf. Mae Côr Meibion Morlais yn ymarfer yn Neuadd Morlais, gyferbyn â'r hysbysfwrdd a'r prif safle bws yn y Strand. Y bwriad yw sefydlu amgueddfa fyw yma sy'n sôn am gerdd a chân. Ar adeg ysgrifennu'r llyfryn yma, mae disgwyl i'r amgueddfa gael ei hagor erbyn mis Tachwedd 2010. Mae croeso i ymwelwyr gael rhagor o wybodaeth a'r newyddion diweddaraf ar y wefan: www.cor-meibion-morlais.org.uk

Dilynwch y ffordd i lawr y cwm, a heibio'r tro i'r Ganolfan Hamdden, hyd at Tylorstown. Mae Plac Glas Côr Meibion Pendyrus i'w weld ar y fflatiau modern ar ochr chwith East Road. Dyma oedd safle Capel Ebeneser lle cafodd y côr ei sefydlu ym 1924.

Roedd Tylorstown hefyd yn gartref i bencampwr pwysau pryf y byd bocsio, Jimmy Wilde (1892 – 1969). Ymhellach i lawr East Road mae plac i'w weld ar Institiwt a Chlwb y Gweithwyr, Tylorstown. Dyma ble roedd e'n ymarfer. Ac yntau'n cael ei alw'n 'The Tylorstown Terror', cymerodd ran mewn 152 o ornestau. Enillodd 137 o'r gornestau ac enillodd 99 o'r rheini gydag ergyd derfynol. Yn ôl rhai, fe yw'r bocsiwr pwysau pryf gorau erioed.



Jimmy Wilde

# TAITH 4 – DISGRIFIAD O'R DAITH

Dilynwch y ffordd hyd at y gylchfan. Trowch i'r dde tuag at Ben-rhys (B4512) ac i fyny'r rhiw er mwyn mwynhau golygfa odidog arall. Dilynwch y ffordd i fyny'r rhiw hyd at gylchfan arall a throwch i'r chwith i mewn i'r maes parcio. Dyma gyfle i chi ymweld â Ffynnon Fair a syllu dros Gwm Rhondda Fach, Cwm Rhondda Fawr, a draw tuag at Fôr Hafren a Pharc Cenedlaethol Exmoor yn y pellter.

Cafodd cerflun y Santes Fair ei ailgodi ym 1953 ar ôl iddo gael ei dynnu i lawr yn ystod y diwygiad ym 1538. Mae'r cerflun yn nodi safle pererindod canoloesol a oedd yn bwysig iawn. Mae eglwys fach yn sefyll ar y bryn islaw ac mae'n gartref i Ffynnon Fair. Dyma ffynnon dŵr haearn a oedd yn gwella arthritis ac anhwylderau eraill yn ôl rhai ar un adeg.

Ewch yn ôl i lawr y rhiw hyd at gylchfan Tylorstown a throwch i'r dde tuag at y Porth (A4233).

Dilynwch y ffordd i lawr y cwm a thros bont newydd y Porth. Wrth gyrraedd y gylchfan trowch i'r chwith tuag at Bontypridd (A4058). Ewch i'r lôn dde ar y ffordd ddeuol a thrwy set o oleuadau traffig hyd at arwydd yr A4233 i Donyrefail, Trebannog a'r Cymer. Wrth gyrraedd set o oleuadau traffig, trowch i'r dde.

Wrth gyrraedd set arall o oleuadau traffig ar ben y rhiw, mae'n bosibl i chi naill ai troi i'r dde tuag at y Cymer a Swyddfeydd y Cyngor er mwyn ymweld â Chapel y Cymer, neu ewch syth ymlaen.

## TAITH DDEWISOL

Ar ôl troi i'r dde wrth y goleuadau traffig, parciwch yn yr ail stryd ar y dde. Ewch am dro yn ôl i'r goleuadau traffig er mwyn ymweld â Chapel y Cymer (sylwch ar y Plac Glas). Cafodd y capel ei adeiladu ym 1743 a dyma oedd y capel cyntaf i gael ei godi yng Nghwm Rhondda, a hynny ar gyfer cymuned wledig – roedd hi'n sbel cyn i ddiwydiant gael ei ddatblygu yn yr ardal. Mae'r capel yn cael ei adfer ar hyn o bryd ac mae rhai cerrig beddau diddorol i'w gweld wrth ymyl y capel. (Mae'n bosibl bydd y gwaith adfer yn achosi anghyfleuster).

Gyrrwch yn ôl i'r goleuadau traffig a throwch i'r dde.

Dilynwch arwyddion yr A4233 i fyny'r rhiw tuag at Donyrefail a Threbannog hyd at set o oleuadau traffig yn Nhrebannog. Wrth gyrraedd y set o oleuadau traffig ewch syth ymlaen ac i lawr y rhiw hyd at y gylchfan. Wrth gyrraedd y gylchfan trowch i'r chwith tuag at Lantrisant (A4119), Caerdydd a'r M4.



Capel y Cymer

## TAITH DDEWISOL

Wrth gyrraedd y gylchfan nesaf mae'n bosibl troi i'r dde tuag at y Gilfach-goch (A4093). Roedd ardal y Gilfach-goch wedi ysbrydoli Richard Llewellyn i ysgrifennu'r nofel 'How Green Was My Valley' a chafodd ei throi'n ffilm glasur yn ddiweddarach.

Dilynwch y ffordd hyd at y gylchfan a throwch i'r dde. Wrth gyrraedd y gylchfan nesaf trowch i'r chwith tuag at Ben-y-bont, Cymoedd Ogwr a Garw, a'r Gilfach-goch (A4093). Wrth gyrraedd yr ysgol ar y chwith, dilynwch arwydd i'r Gilfach-goch i'r dde. Mae Plac Glas Richard Llewellyn i'w weld ar Ganolfan y Gymuned ar y dde. Mae croeso i chi fynd i mewn i gaffi'r ganolfan os hoffech chi gael egwyl.

Ewch yn ôl i gylchfan yr A4119 a throwch i'r dde tuag at Lantrisant, Caerdydd, a'r M4.

Dilynwch yr A4119 gan groesi dwy gylchfan. Cymerwch yr ail dro oddi ar y drydedd gylchfan tuag at Barc Busnes Llantrisant. Symudodd y Bathdy Brenhinol i'r parc busnes yma ym 1968 o'i leoliad blaenorol yn Tower Hill, Llundain. Mae arian papur a darnau o arian yn cael eu cynhyrchu yma ar gyfer y Deyrnas Unedig a nifer o wledydd eraill.

Ar ddiwedd y ffordd ddeuol fer, ewch syth ymlaen trwy'r groesffordd ac, wrth i'r ffordd gulhau, dilynwch arwydd 'Llantrisant ¾' i'r dde. Ewch i fyny'r rhiw a thros Waun Llantrisant tuag at y dref hanesyddol. Ar ôl croesi'r grid gwartheg ar gyrion y dref, trowch i'r chwith er mwyn cyrraedd y maes parcio. Mae croeso i chi ddilyn Taith Gerdded Llantrisant – bydd y daith yn cymryd tuag awr.

Mae Taith Gerdded Llantrisant ar gael i'w lawrlwytho oddi ar y wefan: www.heritagetrailsrct.co.uk ac mae'r llyfryn ar gael drwy ffonio 01443 490238 neu anfon neges e-bost i tourismenquiries@rhondda-cynon-taf.gov.uk. Mae nifer o gaffis a thafarnau yn y dref.

Mae disgrifiad o'r daith gerdded i'w weld ar yr hysbysfwrdd yn y maes parcio, ac mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â hanes y dref i'w gweld ar yr hysbysfwrdd yng Nghylch y Teirw.



# TAITH 4 – DISGRIFIAD O'R DAITH

Mae Llantrisant yn dref fach a thawel sy'n sefyll ar ben y bryn, gyda golygfeydd dros y wlad o'i hamgylch. A hithau'n un o drefi hynaf Cymru, mae hanes hir yn perthyn iddi, gan gynnwys adfeilion castell Llantrisant a gafodd ei adeiladu gan Richard de Clare, Arglwydd Morgannwg, yn y 13eg ganrif. Mae'r eglwys, o'r 13eg ganrif, yn coffáu tri o seintiau, sef Illtyd, Gwynno a Tyfodwg, ac felly mae'r dref yn cael ei galw'n Llantrisant.

Mae rhai o achlysuron nodedig yn hanes y dref yn cynnwys gwŷr bwa hir yr ardal yn cymryd rhan ym Mrwydr Crécy ym 1346 ar ran Brenin Edward III. Yn sgil eu gwasanaeth i'r Brenin, cafodd siartr brenhinol ei roi i ddynion y fwrdeistref a'u disgynyddion. Roedd hyn yn cynnig hawliau pori dros Waun Llantrisant. Mae'r anrhydedd yma'n bodoli hyd heddiw.



Roedd y llawfeddyg a'r ysgolhaig ecsentrig, Dr William Price, yn byw yn Llantrisant. Roedd ei weithredoedd wedi arwain at gyfreithloni'r dull o amlosgi'r meirw.

Mae ei gerflun yn sefyll yng Nghylch y Teirw – o flaen Tŷ Model yng nghanol y dref. Roedd Tŷ Model yn arfer bod yn dloty ond erbyn hyn mae'n ganolfan celf a chrefft gyda siop anrhegion.

Dyma le priodol i ddod â'r daith i ben. Mae nifer o ddewisiadau posibl i chi o ran lleoedd i fynd nesaf. Mae'r M4 i gyfeiriad y de, ac mae'r A470 a Phontypridd i gyfeiriad y dwyrain.



Dr. William Price